

Y Testament Newydd



The New Testament



Y Beibl Cymraeg Newydd, Argraffiad Diwygiedig

The Holy Bible, English Standard Version

Bible Society

Mathew 1
13 Sorobabel i Abiwd, Abiwd i Eliacim, Eliacim i Asor,

14 Asor i Sadoc, Sadoc i Achim, Achim i Eliwd,

15 Eliwd i Eleasar, Eleasar i Mathan, a Mathan i Jacob.

16 Yr oedd Jacob yn dad i Joseff, gŵr Mair, a hi a roddodd enedigaeth i Iesu, a elwid y Meseia.

17 Felly, pedair ar ddeg yw cyfanrif y cenedlaethau o Abraham hyd Ddafydd, a phedair ar ddeg o Ddafydd hyd y gaethglud i Fabilon, a phedair ar ddeg hefyd o'r gaethglud i Fabilon hyd y Meseia.

Genedigaeth Iesu Grist

Lc. 2:1-7

18 Fel hyn y bu genedigaeth Iesu Grist. Pan oedd Mair ei fam wedi ei dyweddio i Joseff, cyn iddynt ddod at ei gilydd fe gafwyd ei bod hi'n feichiog o'r Ysbryd Glân.

19 A chan ei fod yn ddynd cyfiawn, ond heb ddymuno ei chywilyddio'n gyhoeddus, penderfynodd Joseff, ei gŵr, ei gollwng ymaith yn ddirgel.

20 Ond wedi iddo gynllunio felly, dyma angel yr Arglwydd yn ymddangos iddo mewn breuddwyd, a dweud, "Joseff fab Dafydd, paid ag ofni cymryd Mair yn wraig i ti, oherwydd y mae'r hyn a genhedlwyd ynnddi yn deillio o'r Ysbryd Glân.

21 Bydd yn esgor ar fab, a gelwi ef Iesu, am mai ef a wareda ei bobl oddi wrth eu pechodau."

22 A digwyddodd hyn oll fel y cyflawnid y gair a lefarwyd gan yr Arglwydd trwy'r proffwyd:

23 "Wele, bydd y wryf yn beichiogi, ac yn esgor ar fab, a gelwir ef Immanuel", hynny yw, o'i gyfieithu, "Y mae Duw gyda ni".

24 A phan ddeffrôdd Joseff o'i gwsg,

Matthew 1
13 and Zerubbabel the father of Abiud, and Abiud the father of Eliakim, and Eliakim the father of Azor,

14 and Azor the father of Zadok, and Zadok the father of Achim, and Achim the father of Eliud,

15 and Eliud the father of Eleazar, and Eleazar the father of Matthan, and Matthan the father of Jacob,

16 and Jacob the father of Joseph the husband of Mary, of whom Jesus was born, who is called Christ.

17 So all the generations from Abraham to David were fourteen generations, and from David to the deportation to Babylon fourteen generations, and from the deportation to Babylon to the Christ fourteen generations.

The Birth of Jesus Christ

18 Now the birth of Jesus Christ^s took place in this way. When his mother Mary had been betrothed⁶ to Joseph, before they came together she was found to be with child from the Holy Spirit.

19 And her husband Joseph, being a just man and unwilling to put her to shame, resolved to divorce her quietly.

20 But as he considered these things, behold, an angel of the Lord appeared to him in a dream, saying, "Joseph, son of David, do not fear to take Mary as your wife, for that which is conceived in her is from the Holy Spirit.

21 She will bear a son, and you shall call his name Jesus, for he will save his people from their sins."

22 All this took place to fulfil what the Lord had spoken by the prophet:

23 "Behold, the virgin shall conceive and bear a son, and they shall call his name Immanuel"

(which means, God with us).

24 When Joseph woke from sleep, he

Mathew 2
gwnaeth fel yr oedd angel yr Arglwydd wedi gorchymyn, a chymryd Mair yn wraig iddo.

25 Ond ni chafodd gyfathrach â hi hyd nes iddi esgor ar fab; a galwodd ef Iesu.

2

Ymweliad y Seryddion

1 Wedi i Iesu gael ei eni ym Methlehem Jwdea yn nyddiau'r Brenin Herod, daeth seryddion o'r dwyrain i Jerwsalem

2 a holi, "Ble mae'r hwn a anwyd yn frenin yr Iddewon? Oherwydd gwelsom ei seren ef ar ei chyfodiad, a daethom i'w addoli."

3 A phan glywodd y Brenin Herod hyn, cythruddwyd ef, a Jerwsalem i gyd gydag ef.

4 Galwodd ynghyd yr holl brif offeiriaid ac ysgrifenyddion y bobl, a holi ganddynt ble yr oedd y Meseia i gael ei eni.

5 Eu hateb oedd, "Ym Methlehem Jwdea, oherwydd felly yr ysgrifennwyd gan y proffwyd:

6 'A thithau Bethlehem yng ngwlad Jwda, nid y lleiaf wyt ti o lawer ymysg tywysogion Jwda, canys ohonot ti y daw allan arweinydd a fydd yn fugail ar fy mhobl Israel.'"

7 Yna galwodd Herod y seryddion yn ddirgel ato, a holodd hwy'n fanwl pa bryd yr oedd y seren wedi ymddangos.

8 Anfonodd hwy i Fethlehem gan ddweud, "Ewch, a chwiliwch yn fanwl am y plentyn, a phan fyddwch wedi dod o hyd iddo, rhoiwch wybod i mi er mwyn i minnau hefyd fynd a'i addoli."

9 Wedi gwrandao ar y brenin aethant ar eu taith, a dyma'r seren a welent ar ei chyfodiad yn mynd o'u blaen hyd nes iddi ddod ac aros uwchlaw'r man lle'r oedd y plentyn.

Matthew 2
did as the angel of the Lord commanded him: he took his wife,

25 but knew her not until she had given birth to a son. And he called his name Jesus.

2

The Visit of the Wise Men

1 Now after Jesus was born in Bethlehem of Judea in the days of Herod the king, behold, wise men⁷ from the east came to Jerusalem,

2 saying, "Where is he who has been born king of the Jews? For we saw his star when it rose⁸ and have come to worship him."

3 When Herod the king heard this, he was troubled, and all Jerusalem with him;

4 and assembling all the chief priests and scribes of the people, he enquired of them where the Christ was to be born.

5 They told him, "In Bethlehem of Judea, for so it is written by the prophet:

6 "'And you, O Bethlehem, in the land of Judah, are by no means least among the rulers of Judah; for from you shall come a ruler who will shepherd my people Israel.'"

7 Then Herod summoned the wise men secretly and ascertained from them what time the star had appeared.

8 And he sent them to Bethlehem, saying, "Go and search diligently for the child, and when you have found him, bring me word, that I too may come and worship him."

9 After listening to the king, they went on their way. And behold, the star that they had seen when it rose went before them until it came to rest over the place where the child was.

Mathew 2
10 A phan welsant y seren, yr oeddent yn llawen dros ben.
11 Daethant i'r tŷ a gweld y plentyn gyda Mair ei fam; syrthiasant i lawr a'i addoli, ac wedi agor eu trysorau offrymasant iddo anrhegion, aur a thus a myrr.

12 Yna, ar ôl cael eu rhybuddio mewn breuddwyd i beidio â dychwelyd at Herod, aethant yn ôl i'w gwlad ar hyd ffordd arall.

Ffoi i'r Aifft

13 Wedi iddynt ymadael, dyma angel yr Arglwydd yn ymddangos i Joseff mewn breuddwyd, ac yn dweud, "Cod, a chymer y plentyn a'i fam gyda thi, a ffo i'r Aifft, ac aros yno hyd nes y dywedaf wrthy, oherwydd y mae Herod yn mynd i chwilio am y plentyn er mwyn ei ladd."

14 Yna cododd Joseff, a chymerodd y plentyn a'i fam gydag ef liw nos, ac ymadael i'r Aifft.

15 Arhosodd yno hyd farwolaeth Herod, fel y cyflawnid y gair a lefarwyd gan yr Arglwydd trwy'r proffwyd: "O'r Aifft y gelwais fy mab."

Lladd y Bechgyn

16 Yna, pan ddeallodd Herod iddo gael ei dwyllo gan y seryddion, aeth yn gyndeiriog, a rhoddodd orchymyn i ladd pob bachgen ym Bethlethem a'r holl gyffiniau oedd yn ddwyflwydd oed neu lai, gan gyfrif o'r amser yr holodd ef y seryddion.

17 Felly y cyflawnwyd y gair a lefarwyd trwy Jeremeia'r proffwyd:

18 "Clywyd llef yn Ramah, wylofain a galaru dwys; Rachel yn wylu am ei phlant, ac ni fynnai ei chysuro, am nad oeddent mwy."

Dychwelyd o'r Aifft

19 Ar ôl i Herod farw, dyma angel yr Arglwydd yn ymddangos mewn breuddwyd i Joseff yn yr Aifft,

Matthew 2
10 When they saw the star, they rejoiced exceedingly with great joy.
11 And going into the house they saw the child with Mary his mother, and they fell down and worshipped him. Then, opening their treasures, they offered him gifts, gold and frankincense and myrrh.

12 And being warned in a dream not to return to Herod, they departed to their own country by another way.

The Flight to Egypt

13 Now when they had departed, behold, an angel of the Lord appeared to Joseph in a dream and said, "Rise, take the child and his mother, and flee to Egypt, and remain there until I tell you, for Herod is about to search for the child, to destroy him."

14 And he rose and took the child and his mother by night and departed to Egypt

15 and remained there until the death of Herod. This was to fulfil what the Lord had spoken by the prophet, "Out of Egypt I called my son."

Herod Kills the Children

16 Then Herod, when he saw that he had been tricked by the wise men, became furious, and he sent and killed all the male children in Bethlehem and in all that region who were two years old or under, according to the time that he had ascertained from the wise men.

17 Then was fulfilled what was spoken by the prophet Jeremiah:

18 "A voice was heard in Ramah, weeping and loud lamentation, Rachel weeping for her children; she refused to be comforted, because they are no more."

The Return to Nazareth

19 But when Herod died, behold, an angel of the Lord appeared in a dream to Joseph in Egypt,

Mathew 3
20 ac yn dweud, "Cod, a chymer y plentyn a'i fam gyda thi, a dos i wlad Israel, oherwydd bu farw y rhai oedd yn ceisio bywyd y plentyn."

21 Yna cododd Joseff, a chymerodd y plentyn a'i fam gydag ef, a mynd i wlad Israel.

22 Ond wedi clywed bod Archelaus yn teyrnasu dros Jwdea yn lle ei dad Herod, daeth ofn ar Joseff fynd yno. Cafodd ei rybuddio mewn breuddwyd, ac ymadawodd i barthau Galilea,

23 ac ymsefydlodd mewn tref a elwid Nasareth, fel y cyflawnid y gair a lefarwyd trwy'r proffwyd: "Gelwir ef yn Nasaread."

3

Pregethu Ioan Fedyddiwr

Mc. 1:1-8; Lc. 3:1-9, 15-17;

In. 1:19-28

1 Yn y dyddiau hynny daeth Ioan Fedyddiwr, gan bregethu'r genadwri hon yn anialwch Jwdea:

2 "Edifarhewch, oherwydd y mae teyrnas nefoedd wedi dod yn agos."

3 Dyma'r hwn y soniwyd amdano gan y proffwyd Eseia pan ddywedodd:

"Llais un yn galw yn yr anialwch, 'Paratowch ffordd yr Arglwydd, unionwch y llwybrau iddo.'"

4 Yr oedd dillad Ioan o flew camel, a gwregys o groen am ei ganol, a'i fwyd oedd locustiaid a mêl gwyllt.

5 Yr oedd trigolion Jerwsalem a Jwdea i gyd, a'r holl wlad o angylch yr Iorddonen,

6 yn mynd allan ato, ac yn cael eu bedyddio ganddo yn afon Iorddonen, gan gyffesu eu pechodau.

7 A phan welodd Ioan lawer o'r Phariseaid a'r Sadwceaid yn dod i'w bedyddio ganddo, dywedodd wrthynt: "Chwi epil gwiberod, pwy a'ch rhybuddiodd i ffoi rhag y digofaint sydd i ddod?"

8 Dygwch ffrwyth gan hynny a fydd yn deilwng o'ch edifeirwch.

Matthew 3
20 saying, "Rise, take the child and his mother and go to the land of Israel, for those who sought the child's life are dead."

21 And he rose and took the child and his mother and went to the land of Israel.

22 But when he heard that Archelaus was reigning over Judea in place of his father Herod, he was afraid to go there, and being warned in a dream he withdrew to the district of Galilee.

23 And he went and lived in a city called Nazareth, that what was spoken by the prophets might be fulfilled: "He shall be called a Nazarene."

3

John the Baptist Prepares the Way

1 In those days John the Baptist came preaching in the wilderness of Judea,

2 "Repent, for the kingdom of heaven is at hand."

3 For this is he who was spoken of by the prophet Isaiah when he said,

"The voice of one crying in the wilderness:

'Prepare' the way of the Lord; make his paths straight.'"

4 Now John wore a garment of camel's hair and a leather belt round his waist, and his food was locusts and wild honey.

5 Then Jerusalem and all Judea and all the region about the Jordan were going out to him,

6 and they were baptized by him in the river Jordan, confessing their sins.

7 But when he saw many of the Pharisees and Sadducees coming for baptism, he said to them, "You brood of vipers! Who warned you to flee from the wrath to come?"

8 Bear fruit in keeping with repentance.